# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Gorffennaf 2020

Amser: 09.03 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6421

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Tystion: | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Dirprwy Lefarydd ar gyfer Addysg a'r Gymraeg - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Sharon Davies, Pennaeth Addysg - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Karen Evans, Cadeirydd - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde-ddwyrain Cymru<br>Anna Bolt, Pennaeth Diwygio'r Cwricwlwm ac Arloesedd - Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)<br>Clara Seery, Rheolwr Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC)<br>Natalie Gould, Uwch arweinydd o ran Diwygio'r Cwricwlwm |

| | |
|---|---|
| | - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSC)<br><br>Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br><br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br><br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br><br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Janet Finch-Saunders AS. Nid oedd dirprwy.

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 2 gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 4

3.1 Derbyniwyd y cynnig

## 4 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 5 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 3 gyda chynrychiolwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Consortia Rhanbarthol.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Nodwyd y papurau.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn nodi bod yr Aelodau'n fodlon y byddai'n fwy priodol gosod adroddiad blynyddol 2018-19 gerbron y Senedd i'w nodi, a hynny yng ngoleuni'r oedi rhwng cyhoeddi'r adroddiad a'r dyddiad posibl yn ystod tymor yr hydref pan ellir cynnal dadl arno yn y Cyfarfod Llawn. Nododd yr Aelodau hefyd y byddent yn falch o gael cyfle yn ystod y ddadl honno i gyfeirio at y pwyntiau sy'n codi o waith craffu'r Pwyllgor ar adroddiad Estyn ar gyfer 2018-19, os ydynt yn berthnasol bryd hynny.

6.3 Cytunodd y Cadeirydd i gwrdd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i drafod canfyddiadau gwaith dilynol yr Arolygiaeth ar ei hadroddiad thematig ar wasanaethau pobl ifanc, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - trafod y dystiolaeth

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 9 Blaenraglen waith

9.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar y flaenraglen waith.

9.2 Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am slot i gyfarfod yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 19 Hydref 2020, er mwyn cwblhau'r gwaith o graffu ar y Bil;
- y drefn a awgrymir ar gyfer gwaith a ohiriwyd yn sgil COVID-19;
- y rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref, gan ychwanegu'r gwaith o drafod adolygiad Llywodraeth Cymru o gyllid ysgolion pan fo'n briodol.